

Cyngor Castell-nedd Port Talbot

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024

## Adroddiad Blynyddol 2022-2023

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg**

**This document is also available in English**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

**www.npt.gov.uk**

# Cynnwys


| | ***Tudalen*** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Datblygiadau yn ystod 2022-2023 | 4 |
| • Asesiadau Effaith Integredig | 4 |
| • Ymgysylltu | 4 - 5 |
| Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth | 6 |
| Cynnydd o ran yr Amcanion | 7 |
| • Addysg | 7 - 15 |
| • Iechyd a Llesiant | 16 - 22 |
| • Diogelwch Personol | 23 - 27 |
| • Cyflogaeth | 28 - 35 |
| • Cyfranogiad | 36 - 47 |
| • Safonau byw | 48 - 52 |





***Os bydd angen yr adroddiad hwn arnoch chi mewn print mwy neu fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Polisi Corfforaethol ar 01639 763010 neu e-bostiwch: policy@npt.gov.uk***



# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad blynyddol hwn, a gyhoeddwyd yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, yn rhoi trosolwg o'n gwaith yn datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, gan fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r adroddiad blynyddol hwn hefyd yn nodi'r cynnydd yn erbyn y chwe amcan cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig a nodwyd yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 tan 31 Mawrth 2023.

Adroddir am gynnydd yn erbyn ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig yn bennaf ar y sail flynyddol uchod, fodd bynnag, mae yna rai achosion lle'r adroddir am flynyddoedd academaidd a chyfnodau eraill o amser, a nodir pob un o'r rheiny.

# Datblygiadau yn ystod 2022-2023

## Asesiadau Effaith Integredig

Mae Asesiadau Effaith Integredig (AEI) yn parhau i gael eu cynnal fel rhan o ddatblygu polisi/gwasanaeth. Fel corff cyhoeddus mae'n rhaid i ni ystyried 'tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisïau ac arferion ar bobl sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig' (Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb: Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus Rhestredig yng Nghymru gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2014).

Cynhaliwyd tri archwiliad yn ystod 2021-2022; gan ein gwasanaeth archwilio mewnol, gan ymgynghorydd allanol, a chan Archwilio Cymru. Diben yr archwiliadau oedd ystyried cwblhau Asesiadau Effaith Integredig a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gysylltiedig â nhw, safon yr asesiadau a gynhaliwyd, a sut mae cyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau), yn ogystal â pha effaith mae hynny'n ei chael ar lunio penderfyniadau yn ei dro.

Mae'r argymhellion o bob un o'r Archwiliadau hyn wedi llywio cynllun gweithredu a ddatblygwyd er mwyn helpu i wella ein proses asesu ymhellach. Rydym wedi gwneud cynnydd o ran rhoi'r cynllun gweithredu ar waith ers ei gyflwyno, ond rydym yn cydnabod bod taith hir o'n blaenau i wireddu'r manteision y gall eu cynnig i'n proses yn llawn.

## Ymgysylltu

Mae hyn yn dal yn un o nodweddion allweddol datblygu polisi/gwasanaeth; trwy gydgynhyrchu, ymgysylltu'n weithredol yn gynnar wrth ddatblygu polisi hyd at yr ymgynghori ar fersiynau drafft a therfynol strategaethau a chynlluniau, ac mae'n annatod glwm wrth ein proses Asesu Effaith Integredig. Mae parhau i gynnwys ein trigolion, busnesau lleol a phartneriaid wrth ddatblygu polisi yn allweddol i lwyddiant ein polisïau, ein cynlluniau a'n strategaethau.

## Strategaeth Cyfranogiad

Rydym wedi 'ymrwymo i feithrin diwylliant o bartneriaeth â phobl a chymunedau lleol, gan eu hannog a'u cefnogi i fod yn rhan o'n penderfyniadau, a rhoi gwybodaeth reolaidd iddyn nhw ynghylch sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau.' (Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd 2023-2028)
Rydym ni'n cydnabod bod ymgysylltu â phobl a chymunedau, yn hytrach na rhagdybio barn pobl, eu dymuniadau a'u teimladau, yn cynhyrchu gwell canlyniadau – i ni ac i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Wrth gynhyrchu ein Strategaeth Cyfranogiad rydym wedi bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

# Datblygiadau yn ystod 2022-2023

Nid yn unig mae'r Strategaeth yn nodi sut gall ein cymunedau ymwneud â datblygiad gwasanaethau a pholisïau, mae hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o gyfranogiad pellach mewn democratiaeth leol ac yn darparu gwybodaeth ynghylch hynny. Mae'n cydnabod yr angen am sicrhau bod ymgysylltiad/cyfranogiad yn hygyrch i bawb, yn ogystal â'r cyfraniad y gall pob un o'n cymunedau ei wneud, er enghraifft Cyngor Ieuenctid CNPT sy'n hyrwyddo Hawliau Plant trwy rymuso pobl ifanc i leisio barn a dylanwadu ar newid mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## Y Panel Dinasyddion

Lansiwyd y panel ym mis Ionawr 2020, ac ar hyn o bryd mae'n cynnwys mwy na 500 o drigolion o wahanol rannau o'r fwrdeistref sirol ac yn eu cynnwys yn weithredol ar adeg gynnar iawn yn y broses o wneud penderfyniadau, fel eu bod yn helpu i ddylanwadu ar gynigion cyn i'r rheiny fod yn destun ymgynghori cyhoeddus ehangach. Rydym ni'n parhau i recriwtio i'r Panel i sicrhau ei fod yn dal i gynrychioli'r ardal.

## Cymuned o Ymarfer

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r grŵp yma o staff y cyngor sydd â chysylltiadau sefydledig â'n cymunedau a'n grwpiau lleol i helpu gyda gweithgareddau ymgysylltu, yn fwyaf amlwg Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-2028.



# Cydraddoldeb mewn Cyflogaeth

Cyflwynwyd yr wybodaeth am Gydraddoldeb mewn Cyflogaeth ar gyfer y cyfnod 2022-2023 i'r Pwyllgor Personél ar 11 Rhagfyr 2023. Mae'r data a gynhwyswyd yn cwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, neu lle bo hynny'n fwy priodol, ciplun o'r gweithlu ar 31 Mawrth 2022.

Mae ein hadroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ciplun ar 31 Mawrth 2023, yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog y dynion a'r menywod sy'n gweithio yn y Cyngor yn 2020. Cymerwyd y data cyflogau fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023, gyda gweithlu o 4,072 o weithwyr yn y cyngor, sy'n cynrychioli 1,431 (35%) o wrywod a 2,641 (65%) o fenywod. (Nid yw'r data cyflogau yn cynnwys cyflogeion achlysurol a holl gyflogeion ysgolion.)

- Cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2022 oedd 4.56%, ond gostyngodd y ffigur hwnnw i 3.67% yn 2023.
- Roedd canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 2022 yn 3.56%, a gostyngodd canolrif ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau i 3.28% yn 2023.
- Mae canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn sylweddol is na chanolrif bwlch cyflog cyfartalog y Deyrnas Unedig rhwng y rhywiau, 14.3% yn 2023.

Er bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn llawer llai na chanolrif bwlch cyflog y Deyrnas Unedig rhwng y rhywiau (14.3%), rydym ni'n dal yn ymroddedig i gau'r bwlch.



# Addysg

## Sicrhau bod plant a phobl ifanc y gorau gallan nhw fod

### Blaenoriaeth 1.1 Bydd lefelau cyrhaeddiad pob Plentyn a Pherson Ifanc wedi gwella

| Cam Gweithredu 4.5.4.01 |
| --- |
| Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i ganfod y plant hynny sydd angen cefnogaeth benodol yn y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol |
| **Cynnydd 2022 – 2023** |
| Sefydlwyd gweithgor i sicrhau bod ysgolion yn cyflawni eu cyfrifoldeb statudol mewn perthynas â diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar hyd y blynyddoedd cynnar a'r cyfnod sylfaen. |
| Rydym wedi sicrhau bod capasiti staffio ychwanegol ar draws Timau Cynhwysiad y Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau bod anghenion dysgwyr ag ADY sy'n cychwyn yn yr ysgol yn cael eu nodi, a bod cynlluniau statudol (CDUiau) yn ei lle, os yw hynny'n briodol, a darpariaeth wedi'i sicrhau. |
| Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ym maes Iechyd i sicrhau bod anghenion plant yn cael eu nodi'n gynnar a bod cefnogaeth a darpariaeth addas yn eu lle. |
| Rydym wedi sefydlu mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth gydag ysgolion ynghylch disgyblion sy'n debygol o fod yn pontio iddyn nhw. |

| Cam Gweithredu 4.5.4.02 |
| --- |
| Byddwn ni'n darparu cefnogaeth wedi'i thargedu i deuluoedd mewn angen, gan gynnwys teuluoedd y Lluoedd Arfog, i leihau'r potensial i blant gael profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod. |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Gan weithio gyda'r Swyddog Cyswllt Gwasanaeth Rhanbarthol (RSLO) o'r sefydliad Cefnogi Plant y Lluoedd mewn Addysg (SSCE), trefnodd ein Gwasanaeth Dysgwyr Bregus (VLS) ganolfannau galw heibio i deuluoedd y Lluoedd Arfog gwrdd a datblygu rhwydweithiau yn yr ardal. |

## Blaenoriaeth 1.1 Bydd lefelau cyrhaeddiad pob Plentyn a Pherson Ifanc wedi gwella

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddi i athrawon i helpu i gynyddu eu dealltwriaeth o'r rhwystrau mae plant y lluoedd yn eu hwynebu ym myd addysg, yn ogystal â deall y gefnogaeth sy'n angenrheidiol i roi sylw i unrhyw fateron llesiant meddwl. Bydd y sesiynau hyn yn dod i ben pan fydd yr arian grant yn gorffen ym mis Medi 2023.

Bu 30 o blant y lluoedd ar draws pum ysgol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel rhan o Ŵyl Ysgolion Lluoedd Arfog 2022. Bu'r VLS yn hwyluso gweithdai Iechyd Meddwl SoFit ar gyfer 62 o blant y lluoedd mewn pedair ysgol.

**Cam Gweithredu 4.5.4.03**

Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi a darparu mynediad at brofiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar ôl cyrraedd 16 oed.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Cafodd prosiect Camau Nesaf a ariannwyd gan y Gronfa Adnewyddu Cymuned ei beilota'n llwyddiannus gydag Ysgol Gymunedol Cwmtawe. Manteisiodd 219 o ddisgyblion Blwyddyn 10 ar leoliadau profiad gwaith yn ystod Mehefin 2022. Cynhaliwyd Wythnos Sgiliau yn ogystal; roedd Grŵp Coleg CNPT yn bresennol i siarad â phobl ifanc am yr hyn sydd gan y coleg i'w gynnig, a daeth amrywiol gyflogwyr i'r ysgol i siarad â'r disgyblion am gyflogaeth a byd gwaith. Y gobaith yw y bydd gwybodaeth am leoliadau gwaith peilot y Camau Nesaf yn cael ei defnyddio'n rhan o barhau ac estyn y cynnig profiad gwaith i bob ysgol.

The Legacy and post 16 teams (KIT and Next Steps) have supported young people to transition from school into post 16 destinations during quarter 2. The Next Steps provision continues to support post 16 young people although the Careers Wales work experience has now concluded with over 150 pupils taking part in the pilot in the academic year 2022-2023.

# Blaenoriaeth 1.1 Bydd lefelau cyrhaeddiad pob Plentyn a Pherson Ifanc wedi gwella

**Cam Gweithredu 4.5.4.03**

Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi a darparu mynediad at brofiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar ôl cyrraedd 16 oed.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae cyfleoedd profiad gwaith yn cael eu hymgorffori yn y gronfa ffyniant a rennir ar gyfer 2023-2024.

**Cam Gweithredu 4.5.4.04**

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob disgybl, yn arbennig y rhai o deuluoedd incwm isel a'r rhai lle mae COVID-19 wedi cael effaith benodol, yn gallu cael mynediad at ddyfeisiau digidol priodol.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Trwy gydweithio rhwng ysgolion a'n Gwasanaeth TG, darparwyd ar gyfer yr holl ddysgwyr ysgol oedd wedi'u heithrio'n ddigidol y nodwyd bod angen cefnogaeth arnynt, a darparwyd 1293 o liniaduron.

# Blaenoriaeth 1.1 Bydd lefelau cyrhaeddiad pob Plentyn a Pherson Ifanc wedi gwella

| **Cam Gweithredu 4.5.4.05** |
|---|
| Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i ganfod y disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth anacademaidd i'w helpu i gyflawni eu potensial, o ganlyniad i effaith COVID-19. |

| **Cynnydd 2022 - 2023** |
|---|
| Daliodd Tîm Etifeddiaeth ein Gwasanaeth Ieuenctid ati i gefnogi disgyblion ym mlwyddyn 11 y nododd eu hysgolion a'u partneriaid eu bod mewn perygl o fod yn NEET. |
| Bu Cymuned Plant Gorllewin Sandfields yn gweithio gydag ysgolion lleol i rannu gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned, er enghraifft technegau magu plant i ddelio â phroblemau ymddygiad, llesiant teuluoedd a gorbryder ymwahanu. Yn ystod y flwyddyn sefydlwyd gweithgorau mewn ysgolion lleol i ganfod plant a allai elwa o gefnogaeth/ymyrraeth ychwanegol. |
| Mae ein Tîm Plant a Theuluoedd wedi parhau i gydweithio'n agos ag ysgolion ym mhen uchaf Dyffryn Aman er mwyn canfod teuluoedd y gallai fod angen cefnogaeth arnynt i fagu plant, fel rhan o raglen Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Gwahoddir teuluoedd i sesiynau galw heibio a chyrsiau rhianta sy'n cael eu cyflwyno gan y gweithiwr magu plant a'r ymwelydd iechyd, gan annog cyfranogiad mewn cymorth cynnar a chefnogaeth. |
| Sefydlwyd swyddi ychwanegol yn y gyfarwyddiaeth addysg er mwyn helpu i leihau absenoldeb parhaus ac ailennyn diddordeb myfyrwyr mewn addysg, a sicrhau bod darpariaeth ar gyfer anghenion yr holl blant a phobl ifanc y dewisir eu haddysgu gartref. |
| Cyfeiriwyd 1,814 o blant a phobl ifanc at ein Tîm Plant a Theuluoedd ar gyfer cefnogaeth ymyrraeth gynnar – gwnaed 152 o'r atgyfeiriadau gan ysgolion cynradd a 99 gan ysgolion uwchradd. Roedd y gefnogaeth a ddarparwyd gan y Tîm yn cynnwys iechyd a lles emosiynol, cefnogaeth gwaith ieuenctid, gofalwyr ifanc, magu plant, cefnogaeth i blant ag anableddau neu angen dysgu ychwanegol (ADY). |
| Mae ein Gwasanaeth Llesiant wedi datblygu pecyn hyfforddi ysgol gyfan sy'n defnyddio dull gwybodus am drawma a iechyd cysylltiol. Cafodd hyn gryn dipyn o sylw ers y pandemig, ac mae wedi cael adborth cadarnhaol gan yr ysgolion hynny a gafodd yr hyfforddiant. O ganlyniad, fe'i cyflwynwyd i'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd ac mae niferoedd cynyddol hefyd wedi cofrestru ar gyfer yr hyfforddiant. |

## Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

**Cam Gweithredu 4.5.4.06**

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda disgyblion, rhieni/gofalwyr ac ysgolion i leihau nifer yr achosion o absenoldeb a'r gwaharddiadau yn ein holl ysgolion

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae gwaith yn parhau i gefnogi ysgolion i gynyddu lefelau presenoldeb disgyblion ar draws y grwpiau oed cynradd ac uwchradd. Roedd trafferthion yn parhau o ran cyfraddau presenoldeb yn ystod y flwyddyn, ac er bod cynnydd bychan o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedden nhw'n dal yn is na'r cyfraddau presenoldeb cyn y pandemig, gyda 291 o blant (Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel y Disgybl (PLASC) yn dal i gael eu haddysgu gartref ym mis Ionawr 2023.

**Cam Gweithredu 4.5.4.07**

Byddwn ni'n parhau i weithio gyda rhieni/gofalwyr plant cyn-ysgol i sicrhau eu bod yn barod i fynd i'r ysgol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Yn ystod y flwyddwyn

- Mae ystod o gyrsiau wedi cael eu datblygu a'u cyflwyno gyda'r nod o ddysgu strategaethau i rieni er mwyn cefnogi cyfathrebu eu plentyn
- Rydyn ni wedi cynnal sesiynau Aros a Chwarae i helpu i adeiladu ar wydnwch a sgiliau cymdeithasu plant yn barod i fynd i'r ysgol
- o Rhoddwyd strategaethau i rieni oedd angen cymorth rhianta un i un i'w helpu i gynnal trefn dda, a'u helpu gyda ffiniau, ymddygiad a hyder, fydd yn cefnogi'r plant i gychwyn yn yr ysgol a mwynhau eu profiad o ddysgu.

## Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

Ar gyfer y flwyddyn 2022-2023, cawsom £313,400 o Gronfa Datblygiad Plant Llywodraeth Cyrmu i gefnogi plant cyn-ysgol a'u rhieni. Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 bu'r cyllid yma o gymorth i ddarparu 1,197 o sesiynau (h.y. – sesiynau ymgysylltu, ymweliadau cartref, digwyddiadau, galwadau cymorth dros y ffôn a chyrsiau hyfforddi) a gyflwynwyd er budd i 3,549 o blant a theuluoedd. Defnyddiwyd rhan o'r arian i gefnogi grwpiau cymunedol lleol i gyflwyno gweithgareddau blynyddoedd cynnar ar draws y sir, gyda 10 sefydliad yn derbyn cyllid.

Ddiwedd Mehefin 2022, roedd rhyw 1,000 o blant yn weithredol o ran y Cynnig Gofal Plant ac yn medru cael mynediad at ofal plant wedi'i ariannu i blant 3 a 4 oed. Gostyngodd y ffigur yma i 619 ym mis Medi (fwy na thebyg o ganlyniad i gychwyn yn yr ysgol yn llawn amser) cyn codi eto (631) ddiwedd Mawrth 2023.

**Cam Gweithredu 4.5.4.08**

Byddwn yn casglu data o ysgolion ac yn cefnogi ysgolion i ymdrin â bwlio ac aflonyddu yn eu holl ffurfiau, ac yn gweithio gyda nhw i roi sylw i dueddiadau/faterion.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Dechreuodd yr awdurdod lleol weithio gydag ysgolion i ganfod ffordd o gasglu'r data oedd yn ofynnol; fodd bynnag, daeth yn amlwg fod nifer o wahanol fecanweithiau a systemau'n cael eu defnyddio mewn ysgolion, fel bod ymarferiad casglu data cyffredinol yn llawer mwy cymhleth. Cynhaliwyd ymarferiad peilot mewn nifer bach o ysgolion, ond roedd hynny'n dangos bod angen mewnbwn sylweddol gan swyddogion i gydlynu'r dasg yn ymarferol, felly roedd gofyn ystyried dull arall.

Yn ystod yr un cyfnod cyhoeddodd Estyn ei adroddiad "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon – Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru". O ganlyniad i hyn gofynnodd Llywodraeth Cymru i ysgolion ac awdurdodau lleol ddrafftio cynllun gweithredu ymatebol i gofnodi setiau data sy'n ymwneud ag aflonyddu rhywiol. O ganlyniad, mae swyddogion wedi cyfuno'r ddau fesur, ac maen nhw'n gweithio gyda chydweithwyr TG i symleiddio ymarferiad casglu data trwy'r system SIMS a ddefnyddir yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a bydd peilot pellach yn cychwyn yn fuan.

## Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

**Cam Gweithredu 4.5.4.09**

Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i gefnogi disgyblion sy'n dioddef bwlio, ac yn gweithio gyda'r rhai sy'n bwlio eraill

**Cynnydd 2022-2023**

Bu'r cynnydd yn ddarniog, yn bennaf oherwydd yr anawsterau a brofwyd wrth gasglu data (gweler uchod). Fodd bynnag, mewn ymateb i ddata a ddarparwyd, rydym yn chwilio am hyfforddiant i staff ysgolion a phobl ifanc.

**Cam Gweithredu 4.5.4.10**

Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion a lleoliadau eraill perthnasol i sicrhau bod eu hamgylcheddau dysgu yn ddiogel ac yn feithringar, gyda pharch a sylw dyledus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym wedi drafftio cyfres o egwyddorion a disgwyliadau i ysgolion ac asiantaethau partner yn amlinellu'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag amgylcheddau dysgu cynhwysol.

Cyflwynwyd hyfforddiant i ysgolion, llywodraethwyr ac asiantaethau partner yn amlinellu'r dyletswyddau o ran deddfwriaeth statudol ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad.

## Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

**Cam Gweithredu 4.5.4.11**

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i archwilio manteision cyflogi Swyddogion Cyswllt Teulu, neu rolau tebyg, gan gynnwys dull gweithredu clwstwr, allan o'r cyllidebau dirprwyedig er mwyn cefnogi disgyblion a rhieni i oresgyn heriau sy'n cael effaith negyddol ar ddysgu a llesiant

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ysgolion wedi derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol i benodi swyddog cyswllt teulu os dewisant neu os gallant fforddio gwneud hynny. Ar adeg ysgrifennu, rydym ni'n ymwybodol o 5 ysgol gynradd sydd â swyddog penodol cymorth i deuluoedd neu ymgysylltu â theuluoedd. Mae'n bosib bod gan ysgolion eraill swydd debyg sy'n cael ei chyflawni gan aelod o staff o dan deitl swydd gwahanol.

**Cam Gweithredu 4.5.4.12**

Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc 'yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol, a'u bod yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelodau o gymdeithas amrywiol'

**Cynnydd 2022 - 2023**

Cafodd pob ysgol hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor ar sut i wireddu elfennau gorfodol y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o glystyrau yn cynnal hyfforddiant staff cyfan ar 'Cynefin' ac mae llawer wedi datblygu eu hadnoddau eu hunain, gan gynnwys gwefannau.

Secondiwyd athro o fewn y cyngor i gefnogi ysgolion i ddatblygu 'Cynefin' ac mae wedi bod yn gweithio gyda phob clwstwr ers ymgymryd â'r rôl, gan gynnig cefnogaeth unigol i bob ysgol gynradd yn CNPT. Mae'r adnoddau a'r cynnydd yn gryfder arbennig yn CNPT.

Mae gwaith 'Cynefin' yn parhau i gael ei ddatblygu, ac mae bron yr holl ysgolion cynradd, ynghyd ag ambell ysgol uwchradd, wedi derbyn y gefnogaeth hon.


## Blaenoriaeth 1.2 Bydd gan bob plentyn oed ysgol well llesiant a mwy o ymdeimlad o berthyn

| Cam Gweithredu 4.5.4.13 |
| --- |
| Byddwn yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod addysgu'r cwricwlwm newydd yn adlewyrchu natur aml-ethnig Cymru |

| Cynnydd 2022 - 2023 |
| --- |
| Rhoddwyd cyflwyniadau ar egwyddorion y cwricwlwm newydd i Gymdeithas Cymuned BME CNPT a'r grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Rhywiol (VAWDASV) |
| Mae adnoddau priodol yn parhau i gael eu datblygu gan y Gwasanaeth Dysgwyr Bregus mewn cydweithrediad â'r Tîm Gwella Ysgolion. Mae'r adnoddau hyn ar gael i bob ysgol. |
| Mae ysgolion uwchradd wedi llunio cwricwlwm blaengar gorfodol ar gyfer blynyddoedd 7 ac 8, ac maen nhw'n parhau i gael eu cefnogi i'w gyflwyno. |








# Iechyd a Llesiant

## Hybu llesiant a iechyd meddwl da a mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl

### Blaenoriaeth 2.1 Bydd ein Staff yn cael eu cefnogi a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

**Cam Gweithredu 4.5.4.14**

Fel cyflogwr byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a gwasanaethau cymorth

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym wedi recriwtio 33 Hyrwyddwyr Cyflogeion a fydd, ar ôl dilyn y Cwrs Hyfforddi Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (Lefel 2) ym mis Mai 2023, yn bwynt cyswllt yn eu gwasanaethau ar gyfer cyfeirio cydweithwyr at fentrau corfforaethol a gwasanaethau cymorth yng nghyswllt iechyd meddwl.

Mae ein Huned Iechyd Galwedigaethol yn parhau i ddarparu cymorth iechyd meddwl i'r cyflogeion hynny sydd ei angen, ac sy'n cael eu cyfeirio at yr uned gan eu rheolwr.

**Cam Gweithredu 4.5.4.15**

Fel cyflogwr byddwn ni'n diweddaru polisïau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn ymdrin â iechyd meddwl yn y gweithle

**Cynnydd 2022 - 2023**

Aeth y gwaith ymlaen ar hyd y flwyddyn, a diweddarwyd yr holl bolisïau perthnasol yn ôl y gofyn.

Mae ein Tîm Dyfodol Gwaith yn dal i fod yn gyfrifol am gynnig syniadau ar gyfer gweithredu polisïau fydd yn ymdrin â chymorth iechyd meddwl i'n cyflogeion.

Fe wnaethom ni gyflwyno'r Pasbort Anabledd Addasiadau Rhesymol i gefnogi cyflogeion sy'n ymuno â'r cyngor, neu sy'n newid swyddi o fewn y cyngor, gydag addasiadau rhesymol a thrafodaethau gyda rheolwyr.

## Blaenoriaeth 2.1 Bydd ein Staff yn cael eu cefnogi a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

| **Cam Gweithredu 4.5.4.16** |
| --- |
| Byddwn ni'n darparu gwybodaeth i gyflogeion ynghylch iechyd meddwl ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae ein grŵp Llesiant Staff ar-lein yn dal i ddarparu a hybu cyrsiau, cynghorion, gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a llesiant. |
| Mae ystod o lenyddiaeth sy'n hybu iechyd meddwl a llesiant, yn ogystal â chysylltiadau â gwasanaethau cymorth, ar gael i staff trwy ein tudalennau gwe mewnol, y gall staff eu cyrchu yn y gwaith a gartref. |
| Ar ben hynny, mae cyfeiriadau a gwybodaeth am iechyd meddwl a llesiant yn cael eu darparu gan Swyddogion AD sy'n cefnogi rheolwyr i reoli absenoldeb salwch. |
| **Cam Gweithredu 4.5.4.17** |
| Byddwn ni'n parhau i weithredu ein Cynllun Gweithredu Adduned Cyflogwr Amser i Newid Cymru |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth ac mae'r gwaith yn y cynllun gweithredu gwreiddiol wedi cael ei gwblhau. Fodd bynnag, rydym yn dal i ddatblygu'r cynllun gweithredu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn cynorthwyo ein cyflogeion. |

# Blaenoriaeth 2.1 Bydd ein Staff yn cael eu cefnogi a bydd gwasanaethau priodol yn cael eu hyrwyddo

| **Cam Gweithredu 4.5.4.18** |
| --- |
| Byddwn yn darparu hyfforddiant ac adnoddau i staff er mwyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a helpu i leihau'r stigma sy'n gysylltiedig â iechyd meddwl |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae ystod eang o adnoddau ar y Rhyngrwyd y gall cyflogeion eu cyrchu naill ai yn y gwaith, neu pan fyddan nhw gartref. |
| Mae ystod eang o adnoddau ar y Rhyngrwyd y gall cyflogeion eu cyrchu naill ai yn y gwaith, neu pan fyddan nhw gartref.<br>• Cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl (Lefel 1) - 32 wedi mynychu<br>• Sesiwn Cynyddu Ymwybyddiaeth o'r Menopôs (yr holl staff) - 11 wedi mynychu<br>• Sesiwn Cynyddu Ymwybyddiaeth o'r Menopôs (ar gyfer staff gwrywaidd yn unig) – 5 wedi mynychu<br>• Cynyddu Ymwybyddiaeth – Materion Trawsrywedd – 14 wedi mynychu |

# Blaenoriaeth 2.2 Bod ein Plant a'n Pobl Ifanc yn gallu cyrchu cymorth priodol

**Cam Gweithredu 4.5.4.19**

Byddwn ni'n ailddylunio ein systemau ar gyfer cymorth Emosiynol, Iechyd Meddwl a Llesiant er mwyn cynnig mynediad integredig symlach i wasanaethau

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae grŵp llywio llesiant amlasiantaeth yn cael ei sefydlu i sicrhau bod adnoddau a chynlluniau wedi'u halinio ar draws y Gyfarwyddiaeth mewn perthynas â chefnogi iechyd a llesiant emosiynol.

Mae ein Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion wedi cael ei ailstrwythuro i sicrhau cysondeb staffio ac i osgoi anawsterau recriwtio posibl. Recriwtiwyd staff ychwanegol i roi sylw i'r ystod oed anstatudol estynedig, sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at therapi o 5 oed.

Ar ben hynny, ailddyluniwyd y gwasanaeth cwnsela i ymgorffori gwasanaeth yn benodol ar gyfer cefnogi staff ysgol.

Cynhaliwyd cynhadledd gyda'r holl ysgolion mewn cydweithrediad â Michelle Jaynes, Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin â iechyd a llesiant emosiynol, gyda ffocws penodol ar lesiant staff.

## Blaenoriaeth 2.3 Bydd ein Cymunedau sydd angen cefnogaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol

| **Cam Gweithredu 4.5.4.20** |
|---|
| Byddwn ni'n anrhydeddu ein hymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan sicrhau nad yw unrhyw gyn-filwyr, nac aelod o deulu personél sydd yn y lluoedd neu gyn-filwr, yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd y gwaith hwnnw wrth gyrchu cymorth a gwasanaethau iechyd a llesiant |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae ein Swyddog Cyswllt ar gyfer y Lluoedd Arfog (AFLO) yn parhau i gydweithio'n agos ag AFLOs eraill rhanbarthol er mwyn rhannu arfer da a syniadau, yn ogystal ag er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Gyfamod y Lluoedd Arfog. |
| Daliodd yr AFLO ati i fynychu cyfarfodydd lleol gyda Chyn-filwyr GIG Cymru a mudiadau eraill cyn-filwyr, yn ogystal â rhoi cyfeiriadau a gwybodaeth i gymuned y lluoedd arfog. |
| Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog bellach wedi'i wreiddio yn y gyfraith, ac mae'n rhaid i'r cyngor roi 'sylw dyledus' i sicrhau nad yw aelodau o gymuned y lluoedd arfog yn cael eu rhoi o dan anfantais yng nghyswllt iechyd, addysg a thai. Cynhaliodd y Weinyddiaeth Amddiffyn sesiynau ar-lein ym mis Mai 2023 i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch y gofyniad newydd hwn. |
| I ddathlu Wythnos y Lluoedd Arfog cynhaliwyd seremoni codi'r faner yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot. Hefyd cynhaliwyd digwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghanolfan Siopa Aberafan, lle cafwyd adborth rhagorol gan y rhai oedd yn bresennol, partneriaid a'r ganolfan siopa ei hun, tra bu Gŵyl Lluoedd Arfog y Maer, a gynhaliwyd rhwng 29 Hydref ac 13 Tachwedd 2022 o gymorth i gynyddu ymwybyddiaeth o gymuned y lluoedd arfog. |

## Blaenoriaeth 2.3 Bydd ein Cymunedau sydd angen cefnogaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol

**Cam Gweithredu 4.5.4.21**

Byddwn ni'n cyfrannu at waith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i leihau cyfraddau hunanladdiad yn y fwrdeistref sirol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae'r Bwrdd Diogelu yn cadw golwg ar Grŵp Ymateb Cyflym i Hunanladdiad (SRRG) sy'n edrych ar bob achos lle'r amheuir hunanladdiad (oedolion) a lle bu marwolaeth annisgwyl (plant). Mae data a goladwyd yn ystod y cyfnod wedi dangos bod cynnydd sydyn yn 2022 yn nifer yr achosion lle'r amheuir hunanladdiad, a thynnwyd sylw'r awdurdodau perthnasol at hynny.

Datblygwyd llwybr ar gyfer ymateb i ymgeisiau sylweddol i gyflawni hunanladdiad, gyda chefnogaeth goroeswyr, i'w ddefnyddio ar draws y rhanbarth. Hefyd datblygwyd cyfres o ddata er mwyn monitro a chasglu dysgu o'r maes ymarfer hwn. Lansiwyd y llwybr ym mis Awst 2022.

**Cam Gweithredu 4.5.4.22**

Byddwn yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch iechyd meddwl ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth o'n gwefan

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau ac nad yw'n berthnasol bellach, o ystyried newidiadau i amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

## Blaenoriaeth 2.3 Bydd ein Cymunedau sydd angen cefnogaeth yn gallu cael mynediad at wasanaethau priodol

**Cam Gweithredu 4.5.4.23**

Byddwn ni'n gweithio gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Bae Abertawe i helpu i ymdrin ag effaith COVID-19 ar staff iechyd a gofal cymdeithasol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau ac nad yw'n berthnasol bellach, o ystyried newidiadau i amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

**Cam Gweithredu 4.5.4.24**

Byddwn yn gweithio fel rhan o Wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) rhanbarthol y GIG i ymgysylltu â phob person, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig, yn y rhaglen diogelu iechyd, a byddwn hefyd yn sicrhau bod yr holl bobl sydd angen cael mynediad at y gwasanaeth TTP yn gallu gwneud hynny, gan sicrhau bod mynediad ar gael i bawb

**Cynnydd 2022 - 2023**

Terfynwyd y gwasanaeth TTP Rhanbarthol ar 30 Mehefin 2022, a daeth y rhan fwyaf o gyllid Llywodraeth Cymru i ben. Fodd bynnag, cynhaliwyd tîm Diogelu Iechyd o 17 o bobl, rhag ofn bod angen amdanynt. Mae'r tîm hwn yn ymgymryd â phrosiectau diogelu iechyd ac yn cynnal gallu a rhestr wrth gefn TTP, y gellir galw arnynt os bydd cyfraddau Covid yn cynyddu'n sylweddol, a bod angen olrhain cysylltiadau eto.

# Diogelwch Personol

## Sicrhau bod pobl a chymunedau yn ddiogel, yn cael eu parchu ac yn rhydd rhag trais a chamdriniaeth

### Blaenoriaeth 3.1 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

| Cam Gweithredu 4.5.4.25 |
|---|
| Byddwn yn cynyddu nifer yr adroddiadau am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghastell-nedd Port Talbot, trwy gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau |

| Cynnydd 2022 - 2023 |
|---|
| Mae hwn yn gam gweithredu parhaus ar gyfer y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV). |
| Amcan pennaf Strategaeth CNPT ar gyfer Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach (2023-2026) o hyd yw cyfathrebu ac ymgysylltu, gyda'r nod o 'Gynyddu nifer yr adroddiadau am Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yng Nghastell-nedd Port Talbot, trwy gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau.' |
| Mae'r grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn parhau i gyflwyno ymgyrchoedd, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o VAWDASV, gan gynnwys yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. |
| Bob blwyddyn mae'r tîm Diogelwch Cymunedol yn cefnogi'r ymgyrch Rhuban Gwyn Rhyngwladol sydd â'r nod o ddileu trais gwrywod yn erbyn menywod a merched. Gall hyn gynnwys ymgysylltu â chlybiau chwaraeon ar lawr gwlad, yn ogystal ag ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiad rhanbarthol i gynyddu ymwybyddiaeth. Rydym ni'n cynnal stondin wybodaeth yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot bob blwyddyn i nodi'r ymgyrch. Mae hynny'n gyfle gwych i gwrdd â staff, ymwelwyr a chleifion yn yr ysbyty, felly mae digon o bobl yn bresennol bob blwyddyn, ac mae'n bendant yn werth chweil. |

## Blaenoriaeth 3.1 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi

**Cam Gweithredu 4.5.4.26**

Byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a iach, a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae hwn yn ddarn parhaus o waith i'r tîm Diogelwch Cymunedol, a'r is-grŵp Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n atebol i'r Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Plant a Phobl Ifanc yw ffocws amcan 2 o Strategaeth Ddiwygiedig CNPT, Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach (2023-2026), sy'n gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

**Cam Gweithredu 4.5.4.27**

Darparu mynediad cyfartal i bob dioddefydd i wasanaethau rhywedd ymatebol, o safon uchel, sy'n derbyn adnoddau priodol, sy'n cael eu harwain gan anghenion, ac sy'n seiliedig ar gryfder ar draws Castell-nedd Port Talbot

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae hwn yn ddarn parhaus o waith i'r Grŵp Arweinyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Mynediad cyfartal at wasanaethau sydd ag adnoddau priodol yw un o brif amcanion Strategaeth CNPT, Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach, o hyd, gan weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

## Blaenoriaeth 3.2 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

**Cam Gweithredu 4.5.4.28**

Byddwn ni'n gweithio gydag aelodau o grwpiau cydraddoldeb lleol, partneriaid a'n cymunedau i annog riportio digwyddiadau/troseddau atgasedd ac yn sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth sy'n addas at y diben

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym yn parhau i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n caniatáu i ni gyflogi Swyddog Cydlyniant Cymunedol fel rhan o'r Tîm Diogelwch Cymunedol, yn ogystal ag er mwyn cefnogi cyflwyno unrhyw ymgyrch a mentrau i gefnogi'r gwaith ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae ein Swyddog Cydlyniant Cymunedol yn gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME leol, y Swyddog Troseddau Atgasedd lleol, grwpiau ffydd lleol a grwpiau lleiafrifol eraill i sicrhau ein bod ni'n cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau atgasedd yn rhagweithiol, yn ogystal ag annog riportio unrhyw ddigwyddiadau i'r asiantaethau priodol a chyfeirio at gefnogaeth briodol.

**Cam Gweithredu 4.5.4.29**

Byddwn ni'n cefnogi defnydd o Gerdyn Mynediad Cymdeithas y Gymuned BME (i helpu i oresgyn rhwystrau ieithyddol wrth gyrchu gwasanaeth)

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae'r Gymdeithas yn adolygu ei rhaglen waith barhaus. Mae'r holl gamau gweithredu yn y CCS yn cael eu hadolygu gan y Gymdeithas i asesu eu perthnasedd, a bydd adborth ar sail hynny yn llywio'r adolygiad o'r CCS wrth symud ymlaen.

## Blaenoriaeth 3.2 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

**Cam Gweithredu 4.5.4.30**

Byddwn ni'n cefnogi Cymdeithas y Gymuned BME i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes yn yr ymarferiad Proffilio Cymunedol, yn ogystal ag estyn ei gwmpas

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym yn parhau i gefnogi'r Gymdeithas i gyflawni eu nodau a'u hamcanion. Bu cynrychiolwyr Adnoddau Dynol yn bresennol yng nghyfarfod ehangach y Gymdeithas ym mis Mehefin i drafod cyflogaeth, gan gynnwys amrywiaeth, diwylliant a chydraddoldeb yn y Cyngor.

Cynhaliodd y Gymdeithas, mewn partneriaeth â'r Cyngor, ddigwyddiad Recriwtio BME ym mis Ionawr 2023. Roedd nifer o sefydliadau'n bresennol ar y diwrnod i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar yrfaoedd a chyfleoedd i wirfoddoli. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da, ac roedd yr 50 o aelodau o'n cymunedau BME a oedd yn bresennol yn barnu ei fod yn llwyddiant.

Roedd Heddlu De Cymru yn bresennol ar gyfer y Gymdeithas ehangach ym mis Medi 2022, a buon nhw'n rhannu gwybodaeth am droseddau atgasedd fel rhan o'r trafodaethau cydlyniant cymunedol ehangach.

Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei ystyried yng ngoleuni rhaglen waith y Gymdeithas ac fel rhan o ddiwygio'r CCS yn ystod 2023-2024.

**Cam Gweithredu 4.5.4.31**

Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adborth o'r Arolwg Cydlyniant Cymunedol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae'r cam gweithredu hwn yn cael ei adolygu yng ngoleuni penodi swyddog cydlyniant cymunedol newydd, y newidiadau sydd wedi digwydd ers yr arolwg cydlyniant cymunedol gwreiddiol, a'r ymateb parhaus sy'n ofynnol fel rhan o adolygu'r CCS.

## Blaenoriaeth 3.2 Bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn y gymuned

| Cam Gweithredu 4.5.4.32 |
| --- |
| Byddwn ni'n parhau i weithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME er mwyn deall ymhellach brofiadau bywyd aelodau o'n cymunedau BAME, yn arbennig yng nghyswllt eu profiadau o ddigwyddiadau/droseddau atgasedd |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Gan adeiladu ar drafodaethau ac ymgysylltiad â Chymdeithas y Gymuned a Rhwydwaith Cyflogeion Ethnig y cyngor ei hun, fe wnaethon ni gefnogi Diwrnod Recriwtio BME, ym mis Ionawr 2023, er mwyn helpu i ddileu rhwystrau, cynyddu ymwybyddiaeth ac annog ceisiadau o'n cymunedau BME. |
| Bydd y Gymdeithas a'r cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth i helpu i alluogi mwy o aelodau o'r cymunedau BME i deimlo'n gyfforddus ac yn hyderus wrth ymgeisio am swyddi gyda'r cyngor. |








# Cyflogaeth

## Sicrhau bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned yn well, bod ein polisïau'n deg, a bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n lleihau

### Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

| **Cam Gweithredu 4.5.4.33** |
| --- |
| Byddwn ni'n sicrhau proses recriwtio a dethol deg a thryloyw sy'n annog cronfa ehangach o ddoniau ac yn hwyluso cydbwysedd mwy cyfartal o ran rhywedd. |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Cynhaliwyd dau gwrs hyfforddi Recriwtio a Dethol; gyda chyfanswm o 11 rheolwr recriwtio yn bresennol. Cynlluniwyd dwy sesiwn arall ar gyfer Mehefin a Medi 2023. |
| Mae ein modiwl recriwtio iTrent yn awr yn cynnwys ceisiadau dienw a fydd yn sicrhau bod y recriwtio'n deg ac yn dryloyw. Cafodd y broses ymgeisio ddienw ei pheilota gydag ystod o swyddi newydd. |

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

**Cam Gweithredu 4.5.4.34**

Byddwn yn hyrwyddo, yn hwyluso, yn dadansoddi ac yn monitro hyblygrwydd yn y gweithle ar bob lefel, er mwyn galluogi menywod i wneud cynnydd ac i sicrhau cydnawsedd â gweithlu sy'n pontio'r cenedlaethau.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd wedi cael ei adolygu, a nodwyd camau gweithredu newydd a fydd yn helpu i sicrhau cynnydd yn hyn o beth. Er enghraifft, bydd ymarferiad casglu data, a gynhelir gan y tîm Dyfodol Gwaith, yn helpu i bennu effaith y Fframwaith Gweithio Hybrid ar rywedd.

Mewn Partneriaeth â Chwarae Teg, fe wnaethon ni lansio rhaglen fentora newydd, Ment2Be CNPT. Lluniwyd y cynllun i helpu mentoriaid i gaffael sgiliau newydd fydd yn helpu eu datblygiad proffesiynol a phersonol eu hunain, ond hefyd yn rhoi cyfle i'r menteion ddatblygu eu sgiliau ar sail gwybodaeth a phrofiad eu mentoriaid. Er mai'r prif nod yw cefnogi menywod ar gyflog isel yn ein gweithlu i symud ymlaen, mae'r cynllun mentora yn gynhwysol ac yn agored i'n holl gyflogeion.

**Cam Gweithredu 4.5.4.35**

Byddwn ni'n casglu ac yn monitro data ar lefel ddyfnach mewn perthynas â gweithio hyblyg.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bydd camau gweithredu a nodwyd fel rhan o adolygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywedd yn ystod y cyfnod hwn yn helpu i symud y cam penodol hwn yn ei flaen. Er enghraifft, bydd ymarferiad casglu data, a gynhelir gan y tîm Dyfodol Gwaith, yn helpu i bennu effaith y Fframwaith Gweithio Hybrid ar rywedd, tra bydd adolygiad o'r Fframwaith ei hun yn amhrisiadwy o ran deall ei effeithiau ar adrannau perthnasol o'r gweithlu.

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

**Cam Gweithredu 4.5.4.36**

Byddwn ni'n craffu ar y nifer sy'n manteisio ar Absenoldeb Rhieni a Rennir er mwyn monitro cydbwysedd rhywedd ac annog mwy i wneud hynny ar draws y rhywiau

**Cynnydd 2022 - 2023**

O ystyried galluoedd ein system AD newydd, ynghyd â rhoi prosesau cysylltiedig ar waith, rydym mewn sefyllfa well i fonitro ein polisïau'n fwy effeithiol, gan gynnwys y polisi absenoldeb rhieni a rennir.

Yn ystod y flwyddyn, dim ond dau gais am absenoldeb rhieni a rennir a ddaeth i law; mae'r niferoedd isel o bosib oherwydd bod trefniadau gweithio mwy hyblyg wedi cael eu cyflwyno gyda'r Fframwaith Gweithio Hybrid newydd.

**Cam Gweithredu 4.5.4.37**

Yn ysbryd Cyfamod y Lluoedd Arfog, byddwn yn cynnwys cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer aelodau o'r Lluoedd Arfog a ryddhawyd yn ddiweddar.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym yn parhau i gynnig cynllun gwarantu cyfweliad ar gyfer cyn-filwyr y Lluoedd Arfog (sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol), ac mae'n rhan o'n proses ymgeisio, fel bod rheolwyr recriwtio yn cael cyfarwyddyd clir ynghylch unrhyw ymgeiswyr cymwys. Rydym yn darparu arweiniad ar y broses hon fel rhan o'n hyfforddiant recriwtio a dethol ar gyfer rheolwyr.

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

Rydym wedi cael gwobr arian yn y cynllun cydnabod cyflogwyr, fel rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Rydym yn parhau i ddarparu rhestr o'r swyddi gwag cyfredol i'r Bartneriaeth Pontio rhwng Gyrfaoedd bob wythnos. Y Bartneriaeth Pontio rhwng Gyrfaoedd yw darparwr swyddogol y Weinyddiaeth Amddiffyn er mwyn cefnogi'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac yn pontio o fywyd milwrol i fywyd sifil.

**Cam Gweithredu 4.5.4.38**

Byddwn ni'n ystyried sut mae ein polisïau a'n harferion yn effeithio ar ein staff sydd wedi'u cyflogi ar gontractau achlysurol a thros dro, a chontractau rhan amser.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym wedi nodi meysydd i'w hadolygu fel rhan o'n polisi Recriwtio a Dethol, a allai gael effaith ar feysydd lle mae menywod amlycaf, gan gynnwys adolygu'r iaith a ddefnyddir yn ein hysbysebion swyddi. Mae'r holl bolisïau perthnasol wedi cael eu newid yng ngoleuni'r canfyddiadau hyn.

Mae gwaith yn parhau mewn perthynas â chyfrifiadau gwyliau blynyddol ar gyfer cyflogeion achlysurol ac yn ystod y tymor yn unig, er mwyn sicrhau tegwch yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

**Cam Gweithredu 4.5.4.39**

Byddwn yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth BAME, gan ddatblygu set o gamau gweithredu seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r nod o wella cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith gweithlu'r Cyngor.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae'r Rhwydwaith Cyflogeion o Leiafrifoedd Ethnig wedi cael ei sefydlu'n llwyddiannus, gyda chylch gorchwyl yn cael ei greu, ac mae wedi bwydo i Strategaeth/Gynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth y Cyngor, gyda chamau gweithredu amlwg sy'n cefnogi'r cylch gorchwyl.

**Cam Gweithredu 4.5.4.40**

Byddwn ni'n gweithio i wella ein Diwylliant Corfforaethol, er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym wedi adolygu ein rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb i sicrhau ei bod yn effeithiol ac yn apelio i'r staff. Datblygwyd rhaglen hyfforddi newydd i adlewyrchu gofynion deddfwriaethol a chorfforaethol, yn ogystal â chynnwys mwy o hyfforddiant ar sail topigau a nodwyd gan y staff, er enghraifft cyrsiau ar iechyd meddwl a llesiant.

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

**Cam Gweithredu 4.5.4.41**

Byddwn yn gweithio gyda staff i bennu'r awydd i ffurfio Fforwm Cyflogeion BAME er mwyn helpu i sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed

**Cynnydd 2022 - 2023**

Sefydlwyd y Rhwydwaith Cyflogeion o Leiafrifoedd Ethnig gyda chylch gorchwyl cytunedig, a chadeirydd ac is-gadeirydd a benodwyd gan yr aelodau. Mae'r Rhwydwaith hefyd wedi datblygu strategaeth/cynllun gweithredu i gefnogi nodau'r cylch gorchwyl.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Rhwydwaith a swyddog a wahoddwyd pan fo hynny'n briodol.

**Cam Gweithredu 4.5.4.42**

Byddwn yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETs) i'w helpu i gaffael profiad a sgiliau er mwyn symud i fyd cyflogaeth

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ein timau Cadw mewn Cysylltiad (KIT) a'r Camau Nesaf wedi parhau i gefnogi pobl ifanc 16-24 oed, gyda'r nod o gynnig cyfleoedd iddyn nhw fynd i fyd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Cafodd 125 o bobl ifanc eu cefnogi gan ein tîm KIT yn ystod y flwyddyn, gydag 86 (69%) o bobl ifanc yn cael canlyniad llwyddiannus; naill ai cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, neu ymgysylltiad â gwasanaeth arbenigol.

Rydym wedi derbyn mentoriaid ieuenctid ychwanegol yn y Tîm Cymunedau dros Waith a Mwy, i weithio gyda'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc sydd allan o waith ac yn cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth. Rydym wedi cefnogi pobl ifanc o bob rhan o CNPT, y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, a hefyd y rhai sy'n agos at sicrhau cyflogaeth, nad oes arnynt angen ond ychydig o gymorth i lwyddo i wireddu hynny.

## Blaenoriaeth 4.1 Bod ein gweithlu yn adlewyrchu ein cymuned amrywiol, a bod hynny'n cael ei gefnogi gan ein polisïau

| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| --- |
| Rydym yn parhau i ddarparu Chrome Books ac unedau wifi i'r rhai oedd yn cael trafferth o ran cyfarpar TG, gan sicrhau eu bod yn gallu chwilio am swyddi ac ymgeisio amdanynt wrth gael eu cefnogi gan y Tîm. |
| Mae 49 o bobl ifanc ar ein rhaglen Twf Swyddi Cymru+, tra bod 23 o bobl ifanc yn dilyn prentisiaethau gyda Llwybrau (Pathways) yng Ngholeg Castell-nedd. |

| **Cam Gweithredu 4.5.4.43** |
| --- |
| Byddwn yn edrych eto ar hyfforddiant staff ynghylch cydraddoldeb, ac yn benodol ar ddealltwriaeth pobl o anabledd, gan gynnwys anabledd nad yw'n weladwy |

| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| --- |
| Rydym wedi adolygu ein rhaglen Hyfforddiant Cydraddoldeb er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn ddeniadol i'r staff. |
| Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi ar ystod o gyrsiau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o drawsrywedd, ymwybyddiaeth o'r menopôs (gan gynnwys i wrywod oedd yn cefnogi cydweithwyr yn y gweithle, rheolwyr/arweinwyr tîm) yn ogystal â thuedd anymwybodol a 'Chyflwyniad i Gydraddoldeb'. |
| Fe wnaethon ni sicrhau hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth wedi'i ariannu trwy 'Gynnig Gwelliant' Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), ond bu oedi gyda'r sesiynau oherwydd newid yn y darparwr hyfforddiant. Rhagwelir y bydd y sesiynau hyn yn awr yn cael eu cynnal yn ystod ail hanner 2023-2024. |

## Blaenoriaeth 4.2 Bod ein Bylchau Cyflog rhwng y Rhywiau yn lleihau

**Cam Gweithredu 4.5.4.44**

Byddwn yn rhoi Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Rhywedd y Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ar waith

**Cynnydd 2022 - 2023**

Fe wnaethom ni gynnal adolygiad o'r Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Rhywedd yn ystod 2022-2023, gan fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau. Mae camau gweithredu newydd wedi'u nodi, a fydd yn ein galluogi i wneud cynnydd pellach yn y maes hwn. Mae'r camau gweithredu hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, yn arbennig o ran rhoi'r trefniadau gweithio hybrid ar waith a'r cynllun Ment2Be – sydd wedi'u bwriadu ar gyfer menywod yn bennaf.

**Cam Gweithredu 4.5.4.45**

Byddwn ni'n rhoi sylw i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor trwy roi Cynllun Gweithredu Cyflogwyr Chwarae Teg ar waith

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mewn Partneriaeth â Chwarae Teg, fe wnaethon ni lansio rhaglen fentora newydd, Ment2Be CNPT. Lluniwyd y cynllun i helpu mentoriaid i gaffael sgiliau newydd i helpu eu datblygiad proffesiynol a phersonol eu hunain, ochr yn ochr â rhoi cyfle i fenteion ddatblygu eu sgiliau ar sail gwybodaeth a phrofiad eu mentoriaid. Er mai'r prif nod yw cefnogi menywod sydd ar gyflog isel yn ein gweithlu i symud ymlaen, mae'r cynllun mentora yn gynhwysol ac yn agored i bob cyflogai

# Cyfranogiad

## Sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i bawb, a bod pobl a chymunedau yn gallu dylanwadu'n well ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw

### Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 4.5.4.46** |
| Byddwn ni'n adolygu ac yn diweddaru ein gwefan yn barhaus, er mwyn gwella ei hygyrchedd |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Rydym wedi parhau i wella ein gwefan er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r safon AA sy'n ofynnol gan reoliadau hygyrchedd newydd y sector cyhoeddus, ac ar hyn o bryd rydym ni'n sgorio 96% sy'n ein rhoi yn safle 27 o safbwynt hygyrchedd ymhlith cynghorau'r Deyrnas Unedig. |
| Rydym yn parhau i ddefnyddio offer hygyrchedd arfer gorau megis Silktide i fonitro ein gwefan o safbwynt materion hygyrchedd, a pharhau i adolygu ac adnewyddu ein gwefan er mwyn sicrhau ei bod yn bodloni'r safon hon. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud i dynnu dogfennau heb eu strwythuro fel PDFs oddi ar ein gwefan, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon AA. |
| **Cam Gweithredu 4.5.4.47** |
| Byddwn ni'n gweithio i roi sylw i'r rhwystrau mae pobl a sefydliadau yn eu hwynebu i gyfranogi ar-lein |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae gwaith helaeth yn parhau i ymdrin â'r rhwystrau mae pobl a sefydliadau yn eu hwynebu i gyfranogi ar-lein. Rydym wedi gwneud gwaith pellach i roi arddulliau dylunio, elfennau a phatrymau cenedlaethol newydd gov.uk ar waith i wella profiad cwsmeriaid ar NPT.gov.uk. |

# Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

Mae ein tîm gwasanaethau digidol yn parhau i gydweithio'n agos â meysydd gwasanaeth i'w helpu i foderneiddio cyflwyniad gwasanaethau, monitro adborth defnyddwyr a gwneud gwaith ymchwil ar ddefnyddwyr fel rhan o'n dull dylunio defnyddiwr-ganolog. Gwneir hyn ochr yn ochr â phartneriaid megis Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol Cymru, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, a bod ein gwasanaethau ar-lein yn hawdd eu defnyddio. Mae adborth gan drigolion yn ein helpu i ddeall beth mae arnyn nhw ei angen gennym ni, ac mae'n creu ôl-groniad wedi'i flaenoriaethu o waith i'w gyflawni.

**Cam Gweithredu 4.5.4.48**

Byddwn ni'n gweithio i ganfod y cyfleoedd ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddinasyddion wella'u sgiliau a'u dealltwriaeth digidol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ein Llysgennad Digidol wedi gweithio'n agos gyda'r cydlynwyr LAC i gefnogi nifer o gleientiaid oedd yn profi digwyddiadau cynhwysiad digidol

Mae sesiynau cynhwysiad digidol yn dal i gael eu cynnal yn Llyfgrell Pontardawe, Llyfrgell Sandfields, YMCA Castell-nedd, Llyfrgell Port Talbot a Llyfrgell Baglan.

Mae dros 90 o unigolion wedi cael eu helpu i ddefnyddio dyfeisiau digidol ar sail eu hanghenion personol eu hunain. Ers mis Ionawr 2022, mae 62 o'r bobl hyn wedi cwblhau cyrsiau byr perthnasol ar Learn My Way, sydd wedi'u galluogi i gyrchu gwasanaethau ar-lein megis gwasanaeth siopa, darparwyr cyfleustodau, a diweddaru trwyddedau gyrru, etc. Wrth i bobl wneud cynnydd gyda'u sgiliau digidol, maen nhw hefyd wedi dilyn hobïau ar-lein, megis casglu ffotograffau neu ymchwilio i hanes lleol.

Mae diogelwch ar-lein, adnabod sgamiau ar-lein a sesiynau twyll yn parhau i gael eu cyflwyno, ac yn cael eu hategu trwy'r dudalen cynhwysiad digidol ar Facebook trwy bostio'r wybodaeth ddiweddar.

## Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

| **Cam Gweithredu 4.5.4.49** |
| --- |
| Byddwn ni'n gweithio trwy'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Diogelu i atal Seiberdroseddu ac amddiffyn pobl yn erbyn ecsbloetio |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mae Seiberdroseddu a Sgamiau yn parhau'n eitem sefydlog ar yr agenda yn ein Tasglu Diogelwch Cymunedol, sy'n atebol i Fwrdd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol CNPT Mwy Diogel. |
| Mewn partneriaeth, mae'r timau'n ymgysylltu'n weithredol â thrigolion i gynyddu ymwybyddiaeth o seiberdroseddu a sgamiau, gan gynghori trigolion i fod yn effro, a sut mae lleihau'r risg o fod yn ddioddefwr. |
| Mae gan y tîm Diogelwch Cymunedol gyfoeth o lenyddiaeth ac eitemau defnyddiol sy'n cael eu dosbarthu mewn digwyddiadau ymgysylltu i helpu i gynnal y gwaith ymhellach. Defnyddir cyfryngau cymdeithasol yn rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth o'r seibersgamiau diweddaraf, ac mae ein partneriaid yn helpu i rannu'r negeseuon hyn a sicrhau ein bod yn cyrraedd cynifer o'n trigolion â phosibl. |
| Yn ystod 2022 bu'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar Fenthycwyr Diegwyddor, a fydd yn ddiamau yn dod yn fwy o destun pryder oherwydd yr argyfwng costau byw a'r hinsawdd presennol. Yn ystod ail ran 2022-2023 rydym wedi canolbwyntio ar gynyddu ymwybyddiaeth o sgamiau cysylltiedig ag ynni, gyda sgamwyr yn hybu ad-daliadau ffug i ddenu pobl atynt i rannu manylion banc etc. |

## Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

**Cam Gweithredu 4.5.4.50**

Byddwn ni'n gwella mynediad corfforol i'r cyfleusterau pwyllgor yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot

**Cynnydd 2022 - 2023**

Ym mis Awst 2022 cwblhawyd gwaith i wella mynediad corfforol i Siambr y Cyngor yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot, ynghyd â gosod offer darlledu a chyfieithu.

Ar ben hynny, crewyd ystafell gynadledda ar y llawr gwaelod yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot – mae hynny wedi sicrhau gwelliant mawr yn hygyrchedd a hyblygrwydd ein cyfleusterau pwyllgor.

**Cam Gweithredu 4.5.4.51**

Byddwn ni'n sicrhau bod y gwasanaethau niferus sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog yn hygyrch ar-lein, ond hefyd dros y ffôn trwy Borth y Cyn-filwyr.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ein AFLO yn parhau i gefnogi cymuned y lluoedd arfog, gan helpu i sicrhau bod gwasanaethau sydd ar gael yn benodol ar gyfer aelodau o'r gymuned honno yn hygyrch i bawb, boed hynny ar-lein neu trwy Borth y Cyn-filwyr.

Mae cefnogaeth ar-lein a Phorth y Cyn-filwyr yn parhau i gael eu diweddaru pan fydd gwybodaeth newydd.

## Blaenoriaeth 5.1 Bod ein gwasanaethau, digidol a thraddodiadol, yn hygyrch i bawb

| **Cam Gweithredu 4.5.4.52** |
| --- |
| Byddwn yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau lleol i archwilio trefniadau amgen wrth gyrchu gwasanaethau manwerthu i'r rhai sy'n cael trafferthion oherwydd mynediad digidol cyfyngedig etc |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Sefydlwyd y fenter amhrisiadwy hon yn ymateb cyflym, hanfodol i'r anawsterau roedd llawer o'n trigolion a'n busnesau yn eu hwynebu yn ystod y 'cyfnod clo' cychwynnol yn y pandemig; sefyllfa oedd yn galw am ddull gweithredu gwahanol i fusnesau a thrigolion fel ei gilydd. Fodd bynnag, wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio ac i fywyd ddychwelyd i ryw fath o normalrwydd, mae'r ddibyniaeth ar y gwasanaeth hwn wedi lleihau i'r graddau fel nad yw'r cam gweithredu bellach yn ddichonadwy. |
| Mae ein gwaith i helpu i wella sgiliau digidol yn ein cymunedau hefyd wedi helpu i oresgyn petruster posibl ac amharodrwydd i gyrchu dulliau siopa amgen, gan olygu o ganlyniad bod y cam gweithredu yn ddibwrpas. |

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| **Cam Gweithredu 4.5.4.53** |
| --- |
| Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r egwyddorion allweddol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: gan gynnwys rhaglenni i gefnogi ymgeiswyr anabl i sefyll mewn etholiadau, a chynhyrchu strategaeth cyfranogiad cyhoeddus. |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Mabwysiadwyd ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus gan y Cyngor ar 26 Ebrill 2023. Cafodd y Strategaeth ei chydgynhyrchu gan Gymuned Ymarfer CNPT ar Gynnwys ac Ymgysylltu, a fu'n helpu i nodi beth oedd eisoes ar waith i gyflawni'r chwe maes hanfodol ar gyfer cynhwysiad, fel y nodwyd yn y Canllawiau Statudol ar Strategaethau Cyfranogiad Cyhoeddus; hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor, sut mae dod yn gynghorydd, a beth mae hynny'n ei olygu, yn ogystal ag ymwybyddiaeth ymhlith cynghorwyr cyfredol o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol; hwyluso mynediad at wybodaeth am benderfyniadau'r cyngor; hyrwyddo a hwyluso prosesau fel bod pobl leol yn gallu cyflwyno sylwadau i'r cyngor am benderfyniad cyn iddo gael ei wneud ac wedyn, a darparu trefniadau i ddod â barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau craffu a throsolwg. |

| **Cam Gweithredu 4.5.4.54** |
| --- |
| Byddwn ni'n cefnogi grwpiau lleol, gan gynnwys Cymdeithas y Gymuned BME, i ddatblygu gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Daeth ein proses ymgeisio am grantiau trydydd sector ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 i ben ar 14 Hydref 2022. Roedd 37, allan o gyfanswm o 64, o geisiadau yn llwyddiannus yn rhannu £586,000 o gyllid. |

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

**Cam Gweithredu 4.5.4.55**

Byddwn yn datblygu ymhellach ein cysylltiadau â'n cymunedau ffydd

**Cynnydd 2022 - 2023**

Er bod cynrychiolwyr o'r gymuned ffydd yn parhau i fod yn aelodau o'n Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol, rydym ni'n ymwybodol bod y gynrychiolaeth yn gyfyngedig. Gyda hynny mewn golwg, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd orau o ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned ffydd wrth symud ymlaen.

Cynhaliwyd digwyddiad rhyng-ffydd, yng ngofal y Maer, ym mis Chwefror 2023, darparwyd cyfle i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r gymuned, ac mae wedi darparu sylfaen ar gyfer ymgysylltiad parhaus.

**Cam Gweithredu 4.5.4.56**

Byddwn yn darparu gwybodaeth a gwasanaeth cyfeirio ar gyfer y rhai sy'n dymuno dysgu Cymraeg a/neu Saesneg

**Cynnydd 2022 - 2023**

Rydym yn parhau i gynnig cyrsiau Cymraeg i'r holl staff. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys cyrsiau byr a llawn Cymraeg Gwaith; Canolradd; Uwch; Gloywi-Siarad; Croeso Rhannau 1 a 2 ac Athro Rhannau 1 a 2.

Cofrestrodd 61 o staff ar gyrsiau Cymraeg yn ystod y cyfnod, gan ymuno â'r 267 o staff sydd eisoes yn dilyn hyfforddiant.

Mae ein tudalen 'Dysgu a defnyddio'r Gymraeg' ar y we yn cynnwys dolenni i adnoddau ar gyfer dysgu, gwella sgiliau iaith, yn ogystal â chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae camau penodol i hybu, annog a hwyluso dysgu Cymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi cael eu cynnwys yn y Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ddiwygiedig ar gyfer 2023-2028.

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

**Cam Gweithredu 4.5.4.57**

Byddwn ni'n datblygu/cryfhau polisïau i ymateb i boblogaeth sy'n heneiddio ac yn cefnogi ffurfio grŵp newydd i roi sylw i hynny

**Cynnydd 2022 - 2023**

Darparwyd Cyllid Oed-gyfeillgar Awdurdod Lleol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod, a chafodd cynllun gwaith ei ddatblygu a'i weithredu yn ail hanner y flwyddyn.

Pan hysbysebir swydd Heneiddio'n Dda tuag at ddiwedd 2022-2023, rhagwelir y bydd modd gwneud cynnydd ar y cam gweithredu hwn yn y flwyddyn sy'n dod.

**Cam Gweithredu 4.5.4.58**

Byddwn yn gweithio gydag aelodau o'r gymuned Traws i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae cynrychiolwyr o grŵp LHDTCRhA+ CNPT wedi darparu mewnwelediad a sylwadau ar gamau gweithredu cyfredol a rhai posibl i'r dyfodol mewn gweithdy adolygu CCS cychwynnol, a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022.

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

**Cam Gweithredu 4.5.4.59**

Byddwn ni’n datblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau o ymdrin â’n gwaith, gyda ffocws ar hawliau plant, yn gweithio gyda’r Maer Ieuenctid a’r Cyngor Ieuenctid, ymhlith eraill.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Daliodd y Cyngor Ieuenctid ati i gwrdd yn ystod y flwyddyn i drafod materion sy’n effeithio ar fywydau pobl ifanc, yn ogystal â ffyrdd o helpu i godi proffil pobl ifanc yn CNPT. Daliodd y Cyngor ati i gwrdd â’r Cabinet yn ystod y flwyddyn i rannu materion oedd yn codi a rhoi adborth ar y gwaith a wnaed.

Ffocws y Cyngor Ieuenctid ar gyfer 2022-2023 oedd iechyd a llesiant, yr amgylchedd a thlodi, fel y nodwyd yn ymgynghoriad blynyddol Gwnewch eich Marc.

Cafodd y maer Ieuenctid newydd a’r dirprwy faer ieuenctid eu sefydlu ym mis Mawrth 2023.

**Cam Gweithredu 4.5.4.60**

Byddwn yn sefydlu mecanweithiau ymgysylltu, er enghraifft Panel Dinasyddion newydd, a defnyddio ymatebion i sicrhau bod datblygiad gwasanaethau’r Cyngor a’r polisïau mae’n eu llunio yn dod o dan ddylanwad yr hyn sy’n bwysig i bobl

**Cynnydd 2022 - 2023**

Datblygwyd ein Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus i fodloni gofynion a geir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023.

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| Cam Gweithredu 4.5.4.61 |
| --- |
| Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog i helpu i leihau unigrwydd a theimladau ynysig, pethau mae llawer o bobl yn eu teimlo wrth adael y lluoedd, neu gan aelod o'r teulu pan fydd yr aelod o'r teulu sydd yn y lluoedd ar wasanaeth neu hyfforddiant gweithredol |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Roedd digwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog a gynhaliwyd yng Nghanolfan Siopa Aberafan yn fodd i sefydliadau gwrdd â'r cyhoedd a rhannu gwybodaeth am beth maen nhw'n ei wneud. Daeth 14 o sefydliadau gwahanol i'r digwyddiad, gan gynnwys ystod eang o elusennau milwrol, lluoedd cadetiaid a sefydliadau eraill trydydd sector. |
| Roedd Gŵyl Lluoedd Arfog y Maer o 29 Hydref – 13 Tachwedd 2022 yn eithriadol o lwyddiannus, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal yng Nghanolfan Siopa Aberafan, Ysgol Cwm Brombil i blant y lluoedd, a chyngerdd yr ŵyl a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd. |
| Dyfarnwyd statws efydd i Ysgol Cwm Brombil yng nghynllun Ysgolion sy'n Croesawu'r Lluoedd Arfog Cymru, i gydnabod y gefnogaeth a roddwyd i blant y lluoedd trwy wreiddio arfer da yng ngwaith beunyddol yr ysgol a chreu amgylchedd cadarnhaol. |
| Mae ein AFLO yn parhau i ymchwilio i arian grant sydd ar gael ar gyfer amrywiol sefydliadau cymorth, yn ogystal â defnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu sefydliadau cyn-filwyr sy'n helpu cyn-filwyr a'u teuluoedd. |

## Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

**Cam Gweithredu 4.5.4.62**

Byddwn ni'n rhoi'r cynllun gweithredu ar waith i gefnogi Gwobr y Siarter Ddigidol, y cawsom gydnabyddiaeth amdani yn ddiweddar

**Cynnydd 2022 - 2023**

Gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd trwy ein strategaeth ddigidol flaenorol, datblygwyd ein strategaeth Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT), sy'n amlinellu sut byddwn ni'n cofleidio dulliau gweithredu newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn darparu'r cynnyrch a'r gwasanaethau gwerth gorau, defnyddiwr-ganolog.

Mae ein rhwydwaith Partneriaid Digidol yn parhau i helpu staff i feithrin hyder digidol a goresgyn unrhyw rwystrau i fod yn ddigidol weithredol yn y gweithle ac yn eu bywydau personol. Mae Partneriaid Digidol yn cael eu hyfforddi i gefnogi cydweithwyr i ddysgu sgiliau digidol newydd a hybu datblygiad sgiliau digidol ar draws y Cyngor.

**Cam Gweithredu 4.5.4.63**

Byddwn ni'n gweithio mewn partneriaeth â grwpiau perthnasol i roi sylw i'n hanes a rennir ac archwilio ffyrdd o fynegi hynny'n well yn ein cymunedau

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae ein gwasanaeth addysg yn gweithio gyda Chymdeithas y Gymuned BME i archwilio a sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn rhoi sylw i'n diwylliannau a'n treftadaeth unigol ac a rennir yn CNPT, ac yn eu dathlu.

Bydd y Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd ei datblygu yn myfyrio ar gyfraniadau'r gorffennol, yn ogystal â chroesawu cyfraniadau diwylliant a threftadaeth ein holl gymunedau i'n hardal yn awr ac yn y dyfodol.

# Blaenoriaeth 5.2 Bydd ein cymunedau yn mwynhau mwy o gydlyniant cymdeithasol a chymunedol

| **Cam Gweithredu 4.5.4.64** |
| --- |
| Byddwn ni'n cefnogi busnesau bach lleol i weithredu gofynion bythol-newidiol canllawiau Llywodraeth Cymru mewn ymateb i'r achosion o COVID-19 |
| **Cynnydd 2022 - 2023** |
| Roedd y cam gweithredu hwn mewn ymateb i'r sefyllfa a grewyd gan y pandemig yn 2020. Gan fod y cyfyngiadau wedi cael eu llacio a bod yr angen am gyflwyno cyfyngiadau a chanllawiau newydd wedi mynd heibio, bernir bod y cam gweithredu wedi'i gyflawni. |








# Safonau byw

## Gweithio i leihau tlodi a chefnogi byw'n annibynnol

### Blaenoriaeth 6.1 Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i leddfu tlodi

| **Cam Gweithredu 4.5.4.65** |
|---|
| Byddwn ni'n datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r materion hynny sy'n codi i'r rhai ag incwm gwariadwy isel net |

| **Cynnydd 2022 - 2023** |
|---|
| Drafftiodd y Grŵp Llywio Costau Byw gynllun gweithredu yn manylu ar rai o'r materion roedd angen rhoi sylw iddyn nhw er mwyn cefnogi aelwydydd ar incwm isel. Roedd hyn yn cynnwys y Cynllun Lleddfu Caledi, a lansiwyd ar 29 Tachwedd 2022: erbyn 12 Rhagfyr roedd 636 o atgyfeiriadau am gefnogaeth wedi dod i law, ac arweiniodd hynny at oedi yn y broses atgyfeirio, er mwyn galluogi'r staff i ymateb i'r galw. |
| Sefydlwyd y cyfeirlyfr Mannau Cynnes ym mis Rhagfyr 2022, a dilynwyd hynny gan lansio'r cynllun grantiau Mannau Cynnes. |
| Datblygwyd e-fwletin, tudalen ar y we a thaflenni Costau Byw i fwyafu'r wybodaeth costau byw oedd yn cael ei dosbarthu i sefydliadau partner, trigolion a staff. |
| Ym mis Mawrth 2023 hwylusodd y Grŵp Llywio Costau Byw weithdy i gymryd stoc o'r gwaith a gwblhawyd hyd yma, ac i gytuno ar y camau nesaf. Rhannwyd adroddiad wedi'r gweithdy ar draws y bartneriaeth ehangach er mwyn derbyn adborth pellach, a chafodd ei ystyried gan y Grŵp yn ei gyfarfod ym mis Mai. |
| Rydym wedi llwyddo i recriwtio i ddwy swydd (a ariannwyd gan SPF) i symud y gwaith hwn ymlaen ymhellach, a bydd hynny'n cynnwys datblygu Strategaeth Tlodi a gwneud defnydd pellach o'r Traciwr Teuluoedd Incwm Isel (LIFT). |

## Blaenoriaeth 6.1 Bydd pobl a chymunedau yn elwa o ymyriadau i leddfu tlodi

**Cam Gweithredu 4.5.4.66**

Byddwn ni'n cofleidio'r Ddyletswydd Sosio-economaidd newydd

**Cynnydd 2022 - 2023**

Datblygwyd cynllun gweithredu i ymdrin â'r argymhellion o'r holl archwiliadau o'n proses Asesiad Effaith Integredig (AEI): ymhlith y camau gweithredu mae diwygio'r broses AEI, yr offeryn a'r canllawiau, yn ogystal â rhaglen hyfforddi.

Ers ei chyflwyno ym mis Mawrth 2021, mae'r ddyletswydd sosio-economaidd wedi cael ei hymgorffori i'r offeryn AEI i'w defnyddio wrth wneud 'penderfyniadau strategol' fel y gyllideb, y cynllun corfforaethol, wrth bennu amcanion etc.

**Cam Gweithredu 4.5.4.67**

Byddwn ni'n sicrhau bod y teuluoedd hynny sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn cefnogaeth ar hyd gwyliau'r ysgol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Derbyniodd pob teulu oedd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM) daliadau ar hyd pob gwyliau ysgol.

**Cam Gweithredu 4.5.4.68**

Byddwn ni'n gweithio gyda sefydliadau lleol a busnesau lleol i archwilio sut mae cynnal mynediad at fwydydd diwylliannol priodol yn ystod cyfnodau o gyfyngu ar symudiadau/cyfnodau clo wrth symud ymlaen

**Cynnydd 2022 - 2023**

Menter oedd hon a sefydlwyd ar gyfer y cyfnodau clo yn ystod y pandemig. Gan fod y sefyllfa wedi gwella ac nad yw'r cyfyngiadau bellach mewn grym, nid yw'n ofynnol bellach.

## Blaenoriaeth 6.2 Bydd pobl yn elwa o raglenni a chefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosibl

**Cam Gweithredu 4.5.4.69**

Byddwn yn cefnogi'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a pharhau i ddarparu ystod gynaliadwy o wasanaethau sy'n ymateb i'r galw, gan alluogi unigolion i aros gartref yn cynnal eu hannibyniaeth cyhyd â phosib, gan dderbyn cefnogaeth briodol ar adegau o angen

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau, ac nad yw bellach yn berthnasol, o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

**Cam Gweithredu 4.5.4.70**

Byddwn ni'n parhau i helpu pobl i ddysgu a rhyngweithio ag eraill, er mwyn iddyn nhw fedru bod yn rhan o'u cymunedau

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol wedi ymwneud ag ystod o weithgareddau i helpu i gefnogi cymunedau i rannu eu profiadau eu hunain a phrofiadau pobl eraill, yn ogystal â helpu i hwyluso, cefnogi a chydlynu gweithgareddau mewn cydweithrediad â gwasanaethau'r cyngor a sefydliadau lleol. Ymhlith yr enghreifftiau mae gweithio gyda VLS ar weithgareddau Mis Hanes Pobl Dduon; cefnogi sesiynau 'Chai & Chat' lleol.

Er bod ymdrin â chydlyniant cymunedol a'i hyrwyddo yn allweddol i rôl y Swyddog Cydlyniant Cymunedol, nid cyfrifoldeb un person neu faes gwasanaeth yn unig yw hyn. O ganlyniad, bydd cynlluniau a strategaethau yn awr ac yn y dyfodol yn cyfrannu at sicrhau bod ein cymunedau yn fwy cydlynus.

## Blaenoriaeth 6.2 Bydd pobl yn elwa o raglenni a chefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosibl

**Cam Gweithredu 4.5.4.71**

Byddwn yn helpu i gefnogi pobl i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau, ac nad yw bellach yn berthnasol, o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

**Cam Gweithredu 4.5.4.72**

Byddwn ni'n ystyried parhau â'r cynllun Iach a Diogel er mwyn helpu i gefnogi aelodau bregus o'n cymunedau

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau, ac nad yw bellach yn berthnasol, o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

**Cam Gweithredu 4.5.4.73**

Byddwn ni'n gwella'r cyfathrebu â'n grwpiau bregus trwy ystod eang o fformatau, er mwyn eu llywio a'u cefnogi'n well i fyw bywyd mor llawn â phosibl yn ystod yr achosion o coronafeirws sy'n drwch ar hyn o bryd.

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bernir bod y cam gweithredu wedi'i gwblhau, ac nad yw bellach yn berthnasol, o ystyried y newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r CCS gael ei ddatblygu yn 2020.

## Blaenoriaeth 6.3 Bod cysylltiadau trafnidiaeth yn cael eu cynnal neu eu gwella

**Cam Gweithredu 4.5.4.74**

Byddwn yn cefnogi mentrau trafnidiaeth gymunedol

**Cynnydd 2022 - 2023**

Mae D.A.N.S.A wedi recriwtio cydlynydd sydd wedi gweithio gyda'r gymuned leol a Chynghorwyr i gyflwyno cynllun trafnidiaeth gymunedol yng nghwm Afan. Mae yng ngofal gwirfoddolwyr, ac yn defnyddio cerbyd trydan allyriadau sero, gyda phwynt gwefru ym mhwll nofio Cymer.

Sicrhaodd cynlluniau Dyffryn Aman gyfran £115,886 o'r cyllid oedd ar gael i symud eu cynlluniau ymlaen. Mae'r cynlluniau'n gweithredu gyda 2 gerbyd trydan allyriadau sero.

Mae D.A.N.S.A wedi sicrhau rhyw £450k, a ddefnyddiwyd i brynu tri phwynt gwefru newydd, tri bws EV 14 sedd, a dau gar EV. Maent hefyd yn aros i baneli Solar gael eu gosod ar eu huned ym Mharc Busnes Creunant.

Mae'r is-adran Trafnidiaeth Teithwyr yn parhau i gefnogi cwmnïau trafnidiaeth gymunedol a chwilio am gyfleoedd newydd i ehangu eu gwasanaethau.

**Cam Gweithredu 4.5.4.75**

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid ar gynllun trafnidiaeth rhanbarthol Bargen Ddinesig Bae Abertawe

**Cynnydd 2022 - 2023**

Bydd hwn yn brosiect hirdymor dros nifer o flynyddoedd. Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid rhanbarthol i archwilio cynlluniau gyda Thrafnidiaeth Cymru a fydd yn gwella cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y rhanbarth.



# Parhewch i Sgwrsio

**ParhewchiSgwrsio@npt.gov.uk**
**#ParhewchiSgwrsioCnPT**